

## Canllawiau Diogelwch ar gyfer Ysgolion a Grwpiau

**Nid asesiad risg swyddogol yw'r ddogfen hon ond yn hytrach canllawiau i'ch cynorthwyo i ysgrifennu asesiad risg eich hunain.**

Lleoliad trwyddedig ar gyfer perfformiadau cyhoeddus yw'r Hafren (Awdurdod Trwyddedu Cyngor Sir Powys), sydd gan Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus. Fel rhan o'r broses drwyddedu mae'r risg o gael anaf neu niwed i'r cyhoedd wedi cael eu asesu a'u reoli eisioes, mae hyn yn cynnwys y risg i blant, yr henoed, yr anabl a'r rhain sydd a nam gweledol neu chlywedol. Mae manau cyhoeddus Yr Hafren o dan reolaeth ddirprwy reolwr a'i staff pan mae'r theatr ar agor i'r cyhoedd.

Anela'r Hafren i ddarparu person Cymorth Cyntaf wrth law bob amser.

Mae yna rhagofalon tân a system synhwyro tân wedi eu gosod drwy'r theatr ac hefyd byddwn yn cynnal ymarferion ymadael â'r theatr mewn argyfwng yn rheolaidd.


Bydd goleuon argyfwng yn goleuo'r Prif Fynedfai ar manau cyhoeddus mewn achos o ddr-trydan.

Mewn achos o argyfwng bydd aelod o staff apwyntiedig yn rheoli'r sefyllfa ac yn tywys grwpiau ac aelodau o'r cyhoedd allan o'r theatr yn ddiogel. Ceir mynediad i'r lleoliad drwy fynedfa awtomatig ar y llawr gwaelod gan ddod i mewn i'r cyntedd cyhoeddus sy'n cael ei rannu gyda Choleg Powys. Lawr fflat sydd i'r fynedfa hon, heb unrhyw stepiau.

Mae'r awditoriwm yn hawdd i'w fynychu drwy gyfrwng dwy fynedfa ar y llawr gwaelod a mynediad i'r balconiau drwy ddefnyddio lifft neu'r grisiau i fyny i'r llawr cyntaf. Ceir mynediad i'r seddi serth yn y awditoriwm drwy risiau â farciwyd yn glir, ac mae lle i hyd at ddeuddeg cadair olwyn ym mlaen yr awditoriwm.

Lleolir doiledau merched, bechgyn a chyfleusterau lles yn y cyntedd ar y llawr gwaelod ac hefyd ar y balconi. Mae gan y cyfleusterau llawr gwaelod a'r llawr cyntaf lawr fflat, ond bod angen mynd i fyny tair stepen er mwyn cyrraedd yr awditoriwm o'r balconi.

Athrawon ac oedolion sy'n cynorthwyo sy'n gyfrifol am y disgyblion drwy'r amser. Cynghorir cysylltu gyda'r Swyddfa Docynnau cyn yr ymweliad er mwyn trefnu gofynion arbennig, er enghraifft, mynediad i gadair olwyn neu chyfleusterau arbennig ar gyfer nam clywedol neu weledol ac yn ogystal i ddarganfod manylion am y cynhyrchiad os oes effeithiau mwg, goleuadau sy'n fflachio, ergydion gwn ac ati yn y perfformiad.



Bydd yn raid i bob grŵp sy'n ymweld gael y gymhareb cywir o blant i oedolion fel yr amlinellwyd yng nghanllawiau'r cyngor. Dylai'r ysgolion hefyd fod yn ymwybodol o'r gymhareb plant i oedolyn ar gyfer y disgyblion hynny sydd ac anableddau neu namau dysgu. Dylai pob grŵp sy'n ymweld apwyntio aelod o staff sydd yng nghofal y grŵp cyfan er mwyn hwyluso'r cyfathrebiad gyda staff y theatr.

Gall gais am ymweliad â'r theatr gael ei drefnu drwy'r Swyddfa Docynnau, ble bydd yr athro/arweinydd grŵp yn cael eu tywys o amgylch llwybrau'r mynedfai a lleoliadau'r seddi cadw. Bydd unrhyw risiau neu pheryglon posib yn cael eu amlinellu bryd hynny yn ogystal. Ymdrechwn i gadw seddi grwpiau o ysgolion gyda'i gilydd, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl, felly byddwn yn trafod y posibilïadau eraill gyda chi cyn y byddwn yn archebu eich tocynnau.

Cyfrifoldeb yr athro/arweinydd grŵp yw hi i adrodd yn ôl i'r grŵp y manylion pwysig, e.e lleoliadau'r mynedfai, seddi cadw, ymddygiad disgwylïedig ac unrhyw fanylion eraill sydd i bwys i'r grŵp.

Os bydd plentyn yn sâl yn ystod y perfformiad, dylai'r athro dan ofalaeth hysbysu staff y theatr er mwyn iddynt eu cynorthwyo ac i lanhau fel bo'n briodol. Caniateir i blant adael yr awditorïwm i fynd i'r tŷ bach yn ystod y perfformiad ond gofynnir i aelod o staff yr ysgol eu tywys yn ogystal.

Bydd mynedfa'r awditorïwm yn cael ei reoli gan un o staff Yr Hafren a bydd yr aelod o staff yma ar ddyletswydd yn ystod eich ymweliad. Dylid troi ffonau symudol ac unrhyw offer recordio i ffwrdd a'u cadw mewn man diogel yn ystod unrhyw berfformiad neu weithdy.

Bydd rhyngweithio neu cynnal sgysiau gyda'r perfformwyr cyn neu ar ôl y perfformiad yn cael eu hysbysebu yn y rhaglen neu drwy drefniant arbennig gyda threfnwyr y perfformiad neu staff Yr Hafren. Bydd yr athro / arweinydd grŵp yn gyfrifol am eu grŵp nhw ar yr adeg hon hefyd.

Cyfrifoldeb yr arweinydd grŵp yw i sicrhau bod cotiau, bagiau ac ati yn cael eu casglu a bod pob plentyn yn bresennol cyn gadael y lleoliad.



## Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer Teithiau Cefn Llwyfan

Ni ddylid adael aelod o'r grŵp gefn llwyfan heb oruchwyliaeth.  
Dylid gwisgo esgidiau call a fflat.

Bydd y daith yn cynnwys ymweld â mannau cul, tywyll gyda 92 o stepiau i'w dringo gan gynnwys rhai mannau uchel.

Nid oes mynediad i gadeiriau olwyn ymhob man.

Bydd y daith yn ymweld â llefydd gwaith go-iawn, felly bydd gweithgareddau swnllyd a llwchlyd yn peidio tra bydd y daith yn parhau, ond os nad yw hyn yn gyfleus bydd yn rhaid osgoi'r mannau hynny.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01686 614 555 neu drwy e-bost [boxoffice@theatrhafren.co.uk](mailto:boxoffice@theatrhafren.co.uk)**

